CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW
LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned Nos Lun Tachwedd 20fed 2017 am 7.30 yr hwyr yng Nghanolfan Bro Cernyw

Ymddiheuriadau: Elen Edwards, Einir Williams, Ann Vaughan, Gwyn Williams, Cyng Garffild Lewis

Presennol: Gwydion Jones (Cadeirydd), Diane M Roberts, R Emlyn Williams, Clwyd Roberts, , Gwynfor Davies, Gerallt Evans, Emrys Williams a'r Clerc

Yn absenoldeb y Cadeirydd dewiswyd Gwydion Jones i gadeirio'r cyfarfod. Croesawyd Mr Emrys Williams atom oedd a diddordeb yn swydd y Clerc.

73.1 DATGAN CYSYLLTIAD – rhoddwyd cyfle i'r aelodau ddatgan cysylltiad ag eitem ar yr Agenda.

73.2 Croesawyd Mr Gwynne Jones, Prif Weithredwr Cartrefi Conwy i'r cyfarfod i drafod y sefyllfa dai. Mae gan y Gymdeithas Dai saith byngalo a phedwar tŷ yn Llangernyw, tri byngalo ym Mhandy Tudur ac un yng Ngwytherin. Trafodwyd y pryder bod byngalo wedi ei werthu yng Ngwytherin heb i'r Cyngor Cymuned na'r bobl leol wybod am y peth. Esboniodd Mr Jones bod penderfyniad wedi ei wneud i werthu'r byngalo oherwydd bod costau uchel o £20,000 i'w adnewyddu ac nad oedd galw am y byngalo. Pwysleisiwyd bod angen i bobl sydd angen tŷ roi eu henwau ar restr rhentu tai y Sir a dim ond mis o rybudd sydd angen i denant roi os am symud tŷ. Gofynnwyd i Mr Jones sicrhau bod Cartrefi Conwy yn rhoi gwybod i ni pan fydd tŷ yn dod yn wag. Hefyd gofynnwyd pa mor aml oedd swyddogion Cartrefi yn ymweld a'r tai a beth oedd y polisi ynglŷn a chadw cŵn a faint o bobl oedd yn cael byw mewn eiddo. Esboniodd bod y swyddogion yn ymweld a dwy ran o dair o'r stoc yn flynyddol ond bod angen i ni roi gwybod iddynt os oedd problem yn codi. Diolchwyd i Mr Jones am fynychu a gofynnwyd iddo fynd â'n sylwadau yn ôl at y cwmni.

73.3 COFNODION – edrychwyd ar gofnodion cyfarfod 24ain Hydref 2017 a PHENDERFYNWYD yn unfrydol eu bod yn gywir.

73.4 MATERION FFYRDD AC AMGYLCHEDD
73.4.1 CANGHENNAU ANGEN EU TOCIO AR FIN Y FFORDD AT LLANFAIR TH – roedd camddealltwriaeth gyda'r safle gan fod yr Adran Ffyrdd yn credu fod y safle yn Sir Ddinbych.
73.4.2 CYFARFOD SAFLE GYDA IWAN ELLIS – diolchwyd i Clwyd Roberts, Diane Roberts a Gerallt Evans am fynychu'r cyfarfod yn Llangernyw ac angen atgoffa'r swyddog am ymateb i'r cyfarfod.
73.4.3 POLISI BAGIAU TYWOD CBSC – derbyniwyd gwybodaeth ynglŷn a threfn rhannu a chasglu bagiau tywod os bydd llifogydd.

73.5 MATERION CYNLLUNIO
73.5.1 Cais Rhif 0/44537 Adeilad amaethyddol arfaethedig i storio gwartheg a bwyd a gwair yn Rhos y Mawn, Llangernyw gan Mr G Williams – PENDERFYNWYD i gefnogi'r cais.

73.5.2 Cais Rhif 0/44570 Prif linell uwchben presennol i gael ei uwchraddio i 3 llinell yn Bodrach Farm, Carmel gan SP Energy Networks. Gadawodd Gwydion Jones y cyfarfod a mynegi diddordeb. PENDERFYNWYD i gefnogi'r cais.
73.5.3 Apêl Cynllunio Glog Ddu, Llangernyw - Tystysgrif cyfreithiol ar gyfer lleoliad arfaethedig carafan. PENDERFYNWYD i anfon yr un sylwadau eto.

73.6 PWYLLGOR MYNWENTYDD – cafwyd adroddiad o'r pwyllgor gan nodi bod yr is bwyllgor wedi cynnal arolwg ac wedi gofyn am brisiau i wneud y gwaith yn y bedair mynwent. Pasiwyd i gael pris ar wahan i'r gwaith clirio cerrig yn mynwent Llangernyw – erbyn Mai 1af. Penderfynwyd i'r pwyllgor gario mlaen â'r gwaith

73.7 CLADDU LLWCH YN MYNWENT LLANGERNYW – oherwydd bod y man claddu llwch yn llawn PENDERFYNWYD i ddefnyddio'r tir ger wal y fynwent gan gychwyn o'r pen uchaf.

73.8 CYTUNDEB MABWYSIADU BLYCHAU FFÔN – cynigiodd Diane Roberts godi'r mater yng nghyfarfod nesaf Llywodraethwyr yr Ysgol.

73.9 ARCHWILIO LLYFRAU – daeth neges gan Mrs Gwenda Cooper yn dweud ei bod yn barod i archwilio'r llyfrau eto y flwyddyn nesaf.

73.10 AROLWG O'R SECTOR CYNGHORAU CYMUNED A THREF – cafwyd gwybodaeth am ddigwyddiadau dros Gymru i dderbyn barn cynghorau. Teimlid bod y digwyddiadau yn bell i deithio iddynt. Pasiwyd i anfon adroddiad Un Llais i bawb.

73.11 GOHEBIAETH – y Clerc i anfon nifer o ddogfennau i'r aelodau ar ebost.

73.12 INCWM A GWARIANT CHWARTER Y CYNGOR – darparwyd copi o'r sefyllfa ariannol i bawb.

73.13 MATERION LLEOL
73.13.1 Tarmac yn cracio 30 llath o gyffordd Glanrhyd rhwng Fron Deg a Tan Lan, Pandy Tudur.
73.13.2 Arwydd ILDIWCH wedi ei daro ger Cefn Coch.
73.13.3 Angen gofyn i'r Cyngor Sir dorri gwair y cae peldroed yn amlach yn lle ei dorri pan mae'n fawr a gadael y gwair ar y cae.
73.13.4 Ffordd yn rhoi i'r cae gyferbyn â cilfan Tyddyn Deicws, Gwytherin.
73.13.5 Ci Labrador yn rhydd yn stad Parc Aelas.
73.13.6 Trafodwyd sut i helpu'r henoed yn y fro – e.e. cychwyn clwb, trefnu gyrrwyr ceir.
73.13.7 Pryder am y tro ym mhont Hendre Ddu – pa mor hawdd fydd i gerbydau hir fynd drosti. Hefyd gofyn iddynt lefelu'r ffordd rhwng y bont a'r A548 er mwyn hwyluso ymuno a'r briffordd.
73.13.8 Pasiwyd i gyfarfod i drafod ceisiadau ariannol Cronfa Bro Cernyw ar 12fed Rhagfyr.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.30 y.h.

Cymeradwywyd y Cofnodion …Elen H Edwards…… Dyddiad …19/12/17……..

A meeting of the Community Council was held on Monday November 20th 2017 at 7:30 at Canolfan Bro Cernyw

Apologies: Elen Edwards, Einir Williams, Ann Vaughan, Gwyn Williams, Cllr Garffild Lewis

Present: Gwydion Jones (Chair), Diane M Roberts, R Emlyn Williams, Clwyd Roberts, Gwynfor Davies, Gerallt Evans, Emrys Williams and Clerk

In the Chair's absence, Gwydion Jones was chosen to chair the meeting. Mr Emrys Williams was welcomed to the meeting who is interested in the Clerk's position.

73.1 DECLARATIONS OF INTEREST - Members were given an opportunity to declare interests on an item on the Agenda.

73.2 Mr Gwynne Jones, Chief Executive Cartrefi Conwy, was welcomed to the meeting to discuss the housing situation. The Housing Association has seven bungalows and four houses in Llangernyw, three bungalows in Pandy Tudur and one in Gwytherin. There was discussion expressing local concerns that a bungalow had been sold in Gwytherin unknown to the Community Council and the local people. Mr Jones explained that a decision was made to sell the bungalow because renovation works worth £20,000 were needed and there was no demand for the property. It was emphasized that people who need a home must put their names on the County's house renting list and a tenant only has to give one month's notice if they wish to move houses. Mr Jones was asked to ensure that Cartrefi Conwy informs the Community Council when a property becomes vacant. Also, it was asked how often housing officers visit the properties and what was the policy regarding dogs and how many people were allowed to live in a property. It was explained that officers visit two thirds of properties annually but if a problem occurs, this needs to be brought to Cartrefi Conwy's attention. Mr Jones was thanked for coming to the meeting and asked to take our observations back to the company.

73.3 MINUTES - the minutes of the meeting held on October 24th 2017 were looked at and it was unanimously RESOLVED that they were correct.

73.4 ENVIRONMENTAL AND ROAD MATTERS
73.4.1 BRANCHES NEED TO BE TRIMMED ON THE ROAD TOWARDS LLANFAIR TH - there was misunderstanding regarding the site, the Highways Department believed the site was in Denbighshire.
73.4.2 SITE VISIT WITH IWAN ELLIS - Clwyd Roberts, Diane Roberts and Gerallt Evans were thanked for going to the site meeting in Llangernyw and the officer needs to be reminded to respond following the meeting.
73.4.3 CBCC SALT BAG POLICY - information was received regarding the distribution and collection arrangement for grit bags where floods were in the question.

73.5 PLANNING MATTERS
73.5.1 Application Number 0/44537 Proposed agricultural building to house cattle and store food and hay at Rhos-y-Mawn, Llangernyw by Mr G Williams - it was RESOLVED to support the application.
73.5.2 Application Number 0/44570 Current main overhead line to be upgraded to three lines at Bodrach Farm, Carmel by SP Energy Networks. Gwydion Jones left the meeting and expressed an interest. It was RESOLVED to support the application.

73.5.3 Planning Appeal for Glog Ddu, Llangernyw - Legal certificate for proposed location of caravan. It was RESOLVED to send the same observations again.

73.6 CEMETERIES COMMITTEE - the committee gave a report noting that the sub-committee had held a review and asked for quotes to take on the work in all four cemeteries. It was agreed to have a separate quote for the stone clearing work in Llangernyw cemetery - by 1st May. It was resolved for the committee to continue with the work.

73.7 ASH BURIAL IN LLANGERNYW CEMETERY - because the ash burial area is full it was RESOLVED to use the land near the cemetery's wall starting at the far end.

73.8 PHONE KIOSKS ADOPTION AGREEMENT - Diane Roberts offered to raise this matter in the next meeting of the School Governors.

73.9 BOOK AUDITING - a message was received by Mrs Gwenda Cooper noting she is prepared to audit the books again next year.

73.10 REVIEW OF THE TOWN AND COMMUNITY COUNCILS SECTOR - information was received regarding events across Wales to receive council's opinions. It was felt that the meetings were far to travel to. It was agreed to send a report to One Voice Wales.

73.11 CORRESPONDENCE - the Clerk to send several documents to the members via e-mail.

73.12 COUNCIL'S QUARTERLY INCOME AND EXPENDITURE - a copy of the financial situation was distributed to all.

73.13 LOCAL MATTERS
73.13.1 Cracks in tarmac approx. 30 yards from Glanrhyd junction between Fron Deg and Tan Lan, Pandy Tudur.
73.13.2 GIVE WAY sign has been hit near Cefn Coch.
73.13.3 Need to ask the County Council to mow the grass on the football field more frequent rather than mowing it when it's grown and leaving the grass on the field.
73.13.4 Road giving way into the field opposite the lay-by at Tyddyn Deicws, Gwytherin.
73.13.5 Wandering Labrador dog on Parc Aelas estate.
73.13.6 There was a discussion on how to help elderly people in the area - e.g. arrange a club, arrange drivers.
73.13.7 Concerns about the turning on Hendre Ddu bridge - how easy will it be for longer vehicles to cross. Also, ask them to level the road between the bridge and the A548 in order to make it easier to join the main road.
73.13.8 It was agreed to hold a meeting to discuss financial applications for Bro Cernyw Fund on 12th December.

The meeting concluded at 9:30pm.

Minutes Approved …Elen H Edwards……. Date …19/12/17……..